# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Meeting of Pwyllgor Perfformiad a Throsolwg held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK on Dydd Mawrth, 10fed Mehefin, 2025 at 10.00 am**

| Councillors Present | Officers in Attendance |
|---|---|
| County Councillor Alistair Neill, (Chair)<br>County Councillor Rachel Buckler, (Vice Chair)<br><br>County Councillors: Jill Bond, John Crook, Meirion Howells, M. Newell, Paul Pavia, Peter Strong, and Tudor Thomas<br><br>Also in attendance County Councillor Angela Sandles, Cabinet Member for Equalities and Engagement | Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu<br>Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu<br>Jane Rodgers, Pennaeth Gwasanaethau Plant<br>Nia Roberts, Swyddog yr Iaith Gymraeg<br>Pennie Walker, Rheolwr Cydraddoldeb a'r Gymraeg<br>Huw Owen, Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Iechyd Cyhoeddus)<br>Alun Thomas, Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd<br>Jennifer Walton, Rheolwr Gwasanaeth Cofrestru<br>Gareth Walters, Arweinydd Tîm Safonau Masnach ac Iechyd Anifeiliaid<br>Kristian Williams, Public Protection |

**APOLOGIES:** County Councillor Steven Garratt

1. **Ymddiheuriadau am Absenoldeb.**

   Steven Garratt, Tudor Thomas fel dirprwy.

2. **Datganiadau o Fuddiant**

   Datganodd y Cynghorydd Howells fuddiant ariannol yn eitem 5 gan fod busnes ei wraig wedi gwneud cais nodwyddo sych Osteopathig dan weithdrefnau arbennig.

3. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd.**

   Dim.

4. **Adroddiad Blynyddol 2024-25 yr Iaith Gymraeg – Craffu ar berfformiad y Cyngor**

   Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Angela Sandles a Pennie Walker yr adroddiad. Atebodd Nia Roberts gwestiynau aelodau gyda Pennie Walker:

   - *Beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf parthed y 3 opsiwn am fodelau cyflenwi mwy effeithlon o ran cost?*

   Yr opsiwn mwyaf dymunol ar hyn o bryd yw ymuno gyda Torfaen ar gyfer gwasanaethau cyfieithu. Mae hyn oherwydd tebygrwydd y mathau o ddogfennau a gaiff eu cyfieithu, a fyddai'n gwneud y broses yn fwy effeithiol a chyson. Mae manylion y cydweithio gyda Torfaen yn dal i gael eu cwblhau er mwyn sicrhau gweithredu llyfn.

- *Beth yw ‘adolygiad dim barn’ dan archwilio mewnol?*

Mae adolygiad dim-barn yn archwiliad mewnol sy’n helpu i ddynodi meysydd o gydymffurfiaeth a diffyg cydymffurfiaeth gyda Safonau’r Gymraeg. Nid yw’n archwiliad swyddogol ond mae’n rhoi gwybodaeth werthfawr ar gyfer datblygu cynllun gweithredu i drin meysydd sydd angen eu gwella.

- *A oes targed ar gyfer cydymffurfiaeth gyda Safonau’r Gymraeg?*

Y nod bob amser yw cydymffurfiaeth 100%, er efallai na fedrir cyflawni hynny bob amser. Mae’r adolygiad dim-barn yn helpu i ddynodi meysydd ar gyfer gwella a chynhelir monitro rheolaidd i ddatrys problemau wrth iddynt godi.

- *Yn y rhestr Safonau, mae rhai ar goll e.e. 23, 69, 85, 94-8 – onid ydynt yn berthnasol?*

Caiff yr adroddiad ei lywio gan ganllawiau Comisiynydd y Gymraeg, sy’n penderfynu pa Safonau a gynhwysir. Gall swyddogion roi diweddariad ar unrhyw Safonau nad ydynt yn cael sylw yn yr adroddiad.

- *O’r 53 o staff a gwblhaodd gyrsiau yn 24/25, ar ba lefel oedd y cyrsiau hyn?*

Fe wnaeth 36 aelod o staff gwblhau’r lefel dechreuwr (Mynediad) a 12 wedi cwblhau’r lefel Sylfaen.

- *Sut fyddwch chi yn sicrhau fod fersiynau Cymraeg a Saesneg y wefan ac apiau yn parhau’r un fath o ran cynnwys a gweithrediad?*

Mae heriau wrth gynnal cysondeb rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg llwyfannau digidol. Mae monitro rheolaidd, hyfforddiant a chyfathrebu gyda’r swyddog gwefan yn help i sicrhau cysondeb a sicrhau aliniad.

- *Pe byddai rhywun eisiau siarad Cymraeg gyda rhywun ar lefel uwch, gyda phwy y gallent siarad?*

Byddai’n anodd canfod person ar lefel uwch sy’n rhugl yn y Gymraeg. Mae dysgu Cymraeg yn ymrwymiad sylweddol ac mae swyddogion yn gweithio ar wella adnoddau i helpu uwch arweinwyr i gynnwys mwy o Gymraeg yn eu gwaith.

- *Nododd yr aelod ddigwyddiad tân diweddar yn y Fenni pan na fedrai’r cyngor gynnig siaradwr Cymraeg i siarad gyda S4C. Tanlinellodd bwysigrwydd cael rhywun a all siarad Cymraeg gyda’r cyfryngau.*

- *Pa mor llwyddiannus fu cynlluniau tebyg i laniardau i adnabod dysgwyr, y sianel Teams Cymraeg ac yn y blaen? A oes mwy o gynlluniau i’w hyrwyddo?*

Bu laniardau yn effeithlon wrth ddynodi siaradwyr a dysgwyr Cymraeg, gan ei gwneud yn haws i’w hadnabod a chysylltu gyda nhw. Mae’r nifer sy’n cymryd rhan mewn cyrsiau Cymraeg yn tyfu bob blwyddyn, gan ddangos cynnydd mewn diddordeb ac effaith. Mae ymateb cadarnhaol i awgrymiadau Cymraeg yn y cylchlythyr staff, yn aml yn ysgogi cwestiynau dilynol gan staff. Dengys adborth gan y rhai sy’n cymryd rhan mewn cyrsiau eu bod yn mwynhau’r sesiynau ond eu bod eisiau mwy o gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg yn y gwaith ac felly mae cynlluniau’r dyfodol yn cynnwys ymchwilio cynlluniau newydd i greu mwy o gyfleoedd i staff ddefnyddio’r

Gymraeg. Caiff diwrnodau dathlu'r Gymraeg fel Diwrnod Shwmae eu cydnabod, er gall cynllunio fod yn her oherwydd adnoddau cyfyngedig.

- *A oes cyfleoedd i weithio o fewn Sir Fynwy gydag awdurdodau cyhoeddus eraill tebyg i'r heddlu, Tân ac Achub, GIG i rannu arferion a gwella gwasanaethau yn Gymraeg?*

Mae Sir Fynwy yn rhan o'r grŵp swyddogion Cymraeg yn ne ddwyrain Cymru lle maent yn rhannu arfer da. Maent hefyd yn cydweithio ar gynllun gofal cymdeithasol "Mwy na Geiriau" i sicrhau y rhoddir y cynnig gweithredol.

- *Mynegodd aelod ddymuniad i weithio gyda swyddogion tu allan i'r cyfarfod ar sut i wthio dysgu i'r gymuned ehangach, o gofio am yr awydd cryf gan y cyhoedd i ddysgu, a chytunodd swyddogion ar hynny.*

- *Mae'r adroddiad yn sôn am 176 o Safonau'r Gymraeg – nid oes dim i ddangos faint yw cost y gwaith hwn i breswylwyr, gan nad yw'r mwyafrif helaeth ohonynt yn siarad Cymraeg. A oes rheswm pam nad ydym yn cyfrif beth yw cyfanswm cost y gwaith?*

Y prif gost yn gysylltiedig gyda chydymffurfiaeth y Gymraeg yw cyfieithu, sydd yn gyson wedi bod yn uwch na'r gyllideb. Mae'r cyngor yn ymchwilio ymuno â gwasanaeth Torfaen i helpu gostwng y costau hyn. Mae'r costau eraill yn cynnwys cyflogau y swyddogion presennol ond caiff y rhan fwyaf o waith cydymffurfiaeth ei integreiddio i gyfrifoldebau dydd-i-ddydd holl swyddogion y cyngor, felly ni chaiff ei nodi ar wahân. Dyna pam na roddir dadansoddiad cost llawn. Cyfanswm y gost am y llynedd oedd £226,940.95.

- *Gyda datblygu deallusrwydd artiffisial, a oes posibilrwydd ei ddefnyddio ar gyfer dibenion cyfieithu? A yw'n cynnig cyfleoedd newydd i ostwng costau ar ôl buddsoddiad dechreuol?*

Mae deallusrwydd artiffisial yn cyflwyno cyfleoedd i ostwng costau cyfieithu ond ni all gymryd lle pobl yn cyfieithu yn llawn oherwydd yr angen i brawfddarllen i sicrhau cywirdeb. Ar hyn o bryd, caiff cyfieithiu ei allanoli a chodir tâl fesul gair, sy'n cyfyngu'r gallu i integreiddio deallusrwydd artiffisial yn uniongyrchol i'r broses. Fodd bynnag, mae cynghorau eraill fel Torfaen yn defnyddio offer tebyg i systemau cof cyfieithu sy'n adalw cynnwys a gyfieithwyd yn flaenorol, sy'n helpu i ostwng gwaith a chost. Gallai ymchwilio systemau tebyg gynnig arbedion ar gyfer y dyfodol, yn arbennig wrth i'r cyngor geisio aros o fewn y gyllideb.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Diolch i'r Aelod Cabinet a swyddogion. Cynigiwyd yr adroddiad.

5. **<u>Perfformiad Diogelu'r Cyhoedd 2024/25 – Adolygu perfformiad y maes gwasanaeth.</u>**

Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno gan Jane Rodgers, Alun Thomas, Kristian Williams, Huw Owen a Gareth Walters a atebodd gwestiynau aelodau:

- *A fedrwch roi mwy o wybodaeth ar archwilio safleoedd risg uchel? A yw rhai safleoedd bwyd yn risg uwch nag eraill?*

Caiff safleoedd bwyd risg uchel eu categoreiddio yn seiliedig ar natur y bwyd a gynhyrchiant, risg traws-halogi a lefel cydymffurfiaeth. Mae categorïau risg uchel yn cynnwys cynhyrchwyr, siopau cigydd a safleoedd tecawe, gydag amlder archwilio yn amrywio o bob chwe mis i 18 mis yn dibynnu ar lefel y risg.

- *Pam fod gostyngiad yn nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth eleni?*

Mae'r gostyngiad yn nifer ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn rhannol oherwydd achos neilltuol o anodd y flwyddyn flaenorol a ysgogodd lawer o sylw yn y cyfryngau cymdeithasol. Er fod nifer y ceisiadau wedi gostwng, mae'n parhau'n uwch nag mewn blynyddoedd blaenorol.

- *Beth yw'r trothwy ar gyfer atgyfeirio digwyddiad i'r Grŵp Ymgynghori Diogelwch Digwyddiadau (ESAG)?*

Nid oes trothwy penodol ar gyfer cyfeirio digwyddiad at ESAG. Mae'r broses yn wirfoddol a chaiff digwyddiadau mwy o ran maint neu risg uwch eu hannog i hysbysu ESAG. Mae'r grŵp yn ymateb yn seiliedig ar y risg ac yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaethau tân a heddlu i sicrhau diogelwch.

- *A fedrwch drafod yr effaith a gaiff swydd wag diogelu'r cyhoedd ar drosolwg strategol?*

Caiff swydd wag y pennaeth diogelu'r cyhoedd ei gydnabod, ac mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn ei adolygu, gydag opsiynau posibl yn cael eu hystyried i lenwi'r bwlch.

- *Ymddengys fod gostyngiad mewn perfformiad rhai meysydd fel tipio anghyfreithlon a chwynion am sŵn. Pa gamau sy'n cael eu cymryd i wella amserau ymateb a datrys?*

Mae'r gostyngiad mewn perfformiad oherwydd cynnydd mewn llwyth gwaith a'r angen i roi blaenoriaeth i dasgau neilltuol. Mae ffocws y tîm ar ganlyniadau ac asesu risg i reoli'r llwyth gwaith yn effeithlon.

- *A ydych yn rhagweithiol wrth drin pryderon am lety uwchben safleoedd tecawe, yn arbennig yng nghyswllt gorlenwi a diogelwch tân?*

Er na wnaeth swyddogion gyflawni'n llawn ar lety mewn archwiliadau tecawe y llynedd, mae'n flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn gyfredol.

- *Ydych chi wedi gweld cynnydd mewn pryderon am les anifeiliaid?*

Bu cynnydd mewn problemau lles anifeiliaid, yn arbennig anifeiliaid fferm, oherwydd yr argyfwng costau byw. Mae heriau wrth ddelio gyda'r achosion hyn, yn cynnwys yr angen am adnoddau a phwysigrwydd gweithio gyda'r llywodraeth i drin y problemau.

- *Caiff 344 o glefydau hysbysadwy eu rhestru – a oes gennym ffigurau unigol ar gyfer E.Coli yn arbennig? Pa lefel o ymchwiliad sy'n mynd i ddynodi ffynonellau y digwyddiadau hyn?*

Oes, gellir dadansoddi ffigurau yn ôl afiechydon unigol fel E.Coli, Salmonela a Campylobacter. Caiff pob achos ei ymchwilio'n drwyadl gan gadw hanes yn seiliedig ar gyfnod deor pathogen penodol. Er enghraifft, gall ymchwiliadau Campylobacter edrych yn ôl dros 11 diwrnod i asesu hanes bwyd, cyswllt ag anifeiliaid, nofio mewn afonydd a chyswllt arall. Caiff ymchwiliadau eu cofnodi yng nghronfa ddata Taran, a gaiff ei rhannu ac sy'n caniatáu tagio ffynonellau posibl. Mae hyn yn helpu i ddynodi patrymau ar draws achosion – tebyg i nifer o bobl yn ymweld â'r un lleoliad – gan sbarduno ymchwiliad pellach os amheuir ffynhonnell gyffredin.

- *A oes gennych ddigon o adnoddau i drin mater gorfodaeth fêps un-tro?*

Mae mater gorfodaeth sylweddol fêps un-tro yn her a bu Llywodraeth Cymru yn rhagweithiol wrth roi gwybodaeth a chymorth. Mae hefyd heriau yn ymwneud ag osgoi deddfwriaeth a'r angen am adnoddau ychwanegol.

- *Sut fyddwch chi'n mynd i'r afael â heriau prynu fêps un-tro ar-lein?*

Mae prynu fêps un-tro ar lein yn her sylweddol a gwneir ymdrechion i drin hynny drwy ddulliau rhanbarthol a chydweithio gyda HMRC ac awdurdodau eraill.

- *Gyda'r galw am wasanaethau ymatebol yn parhau i gynyddu, pa gamau gweithredu gaiff eu cymryd i ddiogelu a blaenoriaethu gwaith rhagweithiol, yn arbennig mewn meysydd fel safonau tai preifat?*

Mae'r tîm yn gyson yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng gwaith ymatebol a rhagweithiol, gyda ffocws ar gynyddu deilliannau iechyd cyhoeddus i'r eithaf. Mae'r tîm yn blaenoriaethu yn seiliedig ar asesiad risg a chynlluniau gwasanaeth, gan sicrhau y caiff gwaith rhagweithiol pwysig, fel llety uwchben safleoedd tecawe, ei drin.

- *A oes unrhyw feysydd eraill lle cafodd gwaith rhagweithiol ei ostwng neu ei ohirio oherwydd pwysau gwasanaeth a beth yw goblygiadau risg hynny?*

Cafodd peth gwaith rhagweithiol, tebyg i lety uwchben safleoedd tecawe, ei ohirio oherwydd gofynion gwaith ymatebol. Mae'r tîm yn ymwybodol o'r risgiau ac yn canolbwyntio ar gyflenwi'r meysydd pwysig hyn yn y flwyddyn gyfredol.

- *Pa ddulliau sydd yn eu lle i adolygu ac ailgydbwyso blaenoriaethau yn rheolaidd drwy'r flwyddyn wrth i'r galw amrywio?*

Mae'r tîm yn adolygu ac yn ailgydbwyso blaenoriaethau yn rheolaidd yn seiliedig ar asesiadau risg dyddiol a chynlluniau gwasanaeth, gan sicrhau y caiff gwaith ymatebol a hefyd ragweithiol eu rheoli'n effeithlon.

- *Sut y caiff staff eu cadw'n ddiogel gyda gorfodaeth mewn safleoedd ac ar ba gam y cysylltir â'r heddlu?*

Caiff staff eu diogelu drwy asesiadau risg a, phan fo angen, gynnwys yr heddlu. Mae ganddynt hefyd fesurau tebyg i anfon dau swyddog ar gyfer cadarnhau a chefnogi mewn ymweliadau cynhennus. Mae ymweliad ar y gweill lle bydd yr heddlu yn gysylltiedig.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Mae hwn yn waith pwysig iawn i'n preswylwyr ac mae'r pwyllgor yn ddiolchgar iawn amdano – gofynnwn i chi ddiolch i bob aelod o staff os gwelwch yn dda. Diolch i'r swyddogion am yr adroddiad a'u hymatebion heddiw. Cafodd yr adroddiad ei gynnig.

**6. <u>Adroddiad Blynyddol 2024/25 – Adolygu perfformiad y maes gwasanaeth.</u>**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Jane Rodgers a Jennifer Walton, a atebodd gwestiynau aelodau:

- *Parthed y canran o gofrestriadau o fewn cyfnod statudol ar gyfer genedigaethau a hefyd farwolaethau, a oes problemau sy'n effeithio ar ddarpariaeth ar gyfer pobl sy'n dioddef ar ôl marwolaeth rhywun?*

Mae'r canran is ar gyfer genedigaethau oherwydd nifer lai o enedigaethau yn Sir Fynwy, lle mae pob genedigaeth yn cael effaith sylweddol ar y canran. Ar gyfer marwolaethau, mae'r broses statudol newydd sy'n ymwneud â rôl yr archwilydd meddygol wedi effeithio ar y rhifau. Mae swyddogion yn hyderus y caiff targedau'r flwyddyn nesaf eu cyflawni wrth i'r broses newydd ymwreiddio mwy.
.

- *A oes rheswm dros yr ystadegyn hynod mai yn Sir Fynwy y bu'r cynnydd canran uchaf mewn seremonïau priodas rhwng 2019 a 2022?*

Roedd y cynnydd dechreuol mewn seremonïau priodas oherwydd ôl-groniad o gyfyngiadau COVID. Daeth Sir Fynwy yn gyrchfan boblogaidd ar gyfer priodasau, gan ddenu pobl o bob rhan o'r wlad i'w lleoliadau hardd.

- *Mae datblygiadau cyson mewn deddfwriaeth a newidiadau yn yr amgylchedd lleol – beth mae'r newidiadau hyn yn ei olygu ac a oes unrhyw ddeddfwriaeth benodol yn yr arfaeth?*

Mae'r newidiadau ar y gweill yn rhai technegol gan fwyaf, gan anelu i ddigideiddio y broses gofrestru, sy'n seiliedig ar bapur i raddau helaeth iawn ar hyn o bryd. Disgwylir y daw'r newidiadau hyn i rym yn y dyfodol ond mae'r union amserlen yn ansicr.

- *A oes pwysau ar y system yn ystod y tymor brig, gyda staff seremonïau yn rhan-amser, a beth yw'r effaith ar wasanaeth?*

Mae'n her ymdopi â galw yn ystod yr haf ond mae aelodau'r tîm yn haeddu canmoliaeth am eu cefnogaeth a'u hyblygrwydd – er y pwysau, nid ydynt erioed wedi methu cynnal seremoni. Mae'r tîm yn mwynhau eu gwaith ac yn cefnogi ei gilydd, gan sicrhau y caiff apwyntiadau eu cynnig o fewn amserlenni statudol.

- *Beth yw eich barn ar ymateb y Llywodraeth i adolygiad Comisiwn y Gyfraith ar ddiwygio cyfraith priodasau, ac ydych chi'n bryderus am y ddiffyg cynnydd?*

Ni fu unrhyw ymateb gan y Llywodraeth hyd yma, ac mae'r argymhellion yn dal i gael eu hadolygu. Bydd cofrestryddion yn dal i fod â rôl wrth adnabod priodasau rheibus, ffug a dan orfodaeth. Mae'r union newidiadau a'u gweithredu yn ansicr ond bydd y tîm yn eu trin wrth iddynt gyrraedd.

- *A allwch egluro nifer y genedigaethau a marwolaethau yn Sir Fynwy h.y. 633 genedigaeth a 1019 marwolaeth? A ddigwyddodd y niferoedd hyn yn y sir?*

Union nifer y genedigaethau o fewn Sir Fynwy oedd 21 ac mae'r ffigur o 633 yn cynnwys genedigaethau a gofrestrwyd ar ran Torfaen. Mae'r ffigur o 1019 marwolaeth yn cynrychioli marwolawethau a ddigwyddodd o fewn Sir Fynwy ei hun.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Diolch i'r swyddogion am yr adroddiad a'u hymatebion, a diolchiadau hefyd i'r tîm ehangach. Cafodd yr adroddiad ei gynnig.

7. **<u>Cynllunydd Gwaith y Cyngor a'r Cabinet.</u>**

8. **<u>Blaenraglen Gwaith a Rhestr Gweithredu y Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg</u>**

Atgoffodd y Cynghorydd Bond y swyddogion am y cais i graffu grantiau, yn arbennig o gofio am SPF ac SRN. Nododd y swyddogion nifer agendâu cyfarfodydd llawn hyd at y flwyddyn nesaf a'r tebygrwydd y bydd angen galw mwy o gyfarfodydd arbennig i ddarparu ar gyfer eitemau ychwanegol.

## 9. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cafodd y cofnodion eu cytuno.

## 10. Cyfarfod nesaf: 9 Gorffennaf 2025 am 10.00am (cyfarfod arbennig).

9 Gorffennaf 2025 am 10.00am (Cyfarfod Arbennig).

The meeting ended at **12.08 pm**